LC543

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

## Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Mae'r gorchymyn hwn yn disodli Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Interim) (Cymru) 2002 gyda newidiadau fel y'u nodwyd ym mharagraffau (a) – (d) y nodyn esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn hwn mewn perthynas â'r anghysondeb canlynol rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg.

**Rheoliad 5(2)(f)/(dd)**

Mae'r testun Saesneg (is-baragraff (f) yn cyfeirio at afr sy'n cael ei symud i sioe yn unig lle mae'r testun Cymraeg (is-baragraff (dd) yn cyfeirio at afr sy'n cael ei symud i neu o sioe.

Cyflwynwyd sylwadau ar ran y Gweinidog i'r perwyl canlynol -

1. Y testun Saesneg sy'n gywir.
2. Gan fod tymor y sioeau ar fin dod i ben a bod y gorchymyn yn peidio â bod yn weithredol ar 1 Chwefror, ni chredir bod angen offeryn diwygio.
3. Ymhob achos bron, yr un person a fyddai'n symud yr anifail i sioe ac o sioe a diben y rhwymedigaeth yw cofnodi yn hytrach na hysbysu.
4. Bwriedir awgrymu y dylid rhoi cyngor i'r awdurdodau gorfodi na ddylid erlyn achos ar sail y rhwymedigaeth ychwanegol yn y testun Cymraeg.

**Sylwadau**

**Erthygl 9(2)(dd)**

Hepgorwyd “neu” o ddiwedd paragraff (i).

**Atodlen**

Mae’r rhan sylweddol o’r ddogfen benodedig mewn un fformat dwyieithog (tudalen lled llawn). Mae hynny i’w ddisgwyl mewn dogfen o gofnod y bydd angen iddi fod ar gael er mwyn cyfeirio ati yn gyffredinol. O dan yr amgylchiadau hyn credir y dylai pennawd a geiriau agoriadol y ddogfen fod mewn fformat dwyieithog tudalen lled llawn (yn hytrach na fformat dwy golofn) er mwyn iddi fod yn eglur nad oes modd dewis rhwng y naill a’r llall ond bod yn rhaid defnyddio’r ddogfen benodedig ar ffurf lle mae’r pennawd a’r geiriad agoriadol (yn ogystal â’r prif destun) yn Gymraeg a Saesneg.

**Pwyntiau teipograffyddol**

Nodwyd nifer o bwyntiau teipograffyddol yn y testun Cymraeg a dylid eu cywiro yn y fersiwn cyhoeddedig.

Ymgynghorydd Cyfreithiol
Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-609
27 Medi 2002